**GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A5, YR A55, YR A494 A’R A470, Y B5125 (CHESTER ROAD) A FFORDD DDIDDOSBARTH (GOGLEDD-DDWYRAIN CYMRU) (TERFYNAU CYFLYMDER 20 MYA A 30 MYA) 202-**

**DATGANIAD O’R RHESYMAU**

Cafodd deddfwriaeth i ostwng y terfyn cyflymder cenedlaethol diofyn ar ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru o 30 mya i 20 mya ei gwneud gan Weinidogion Cymru ar 13 Gorffennaf 2022. Bydd y terfyn cyflymder 20 mya diofyn newydd ar ffyrdd cyfyngedig (a nodweddir gan system o goleuadau stryd neu sydd fel arall yn o dan gyfyngiad drwy Orchymyn), yn dod i rym ar 17 Medi 2023. O’r dyddiad hwnnw, bydd gan ffyrdd cyfyngedig derfyn cyflymder 20 mya oni bai bod terfyn cyflymder gwahanol yn cael ei osod gan yr awdurdod priffyrdd perthnasol.

Mae’r rhannau presennol o’r rhwydwaith cefnffyrdd sydd ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i derfyn cyflymder 30 mya neu lai wedi eu hasesu yn erbyn y “meini prawf lleoliad” a nodir yn adendwm 01/2022 i Gylchlythyr Rhif: 24/2009 (Pennu Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru), er mwyn canfod a ydynt yn bodloni’r meini prawf eithrio ac a ddylent felly barhau’n 30 mya.

Mae egwyddorion y meini prawf eithrio yn seiliedig ar ddyhead Llywodraeth Cymru y dylai terfyn cyflymder 20 mya gael ei osod yn gyffredinol pan fo cerddwyr a/neu feicwyr a cherbydau modur yn cymysgu’n aml, ac eithrio pan fo tystiolaeth gref yn dangos bod cyflymderau uwch yn ddiogel. Yn dilyn asesiad, cynigir terfyn cyflymder 30 mya yn y lleoliadau a amlinellir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn, fel eithriadau i’r terfyn cyflymder 20 mya diofyn. Cynigir terfyn cyflymder o 20 mya mewn perthynas â’r darnau o briffyrdd anghyfyngedig a amlinellir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn, gan fod yr "Egwyddorion" (ym mharagraff 2.1 o'r canllawiau uchod) ar gyfer terfyn cyflymder o 20 mya wedi eu bodloni.

Bydd Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Rhuthun, Sir Ddinbych) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2016 (O.S. 2016/1015 (Cy. 244)), Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Llanbedr Dyffryn Clwyd, Sir Ddinbych) (Terfyn Cyflymder 30 mya) 2018 (O.S. 2018/405 (Cy. 72)), Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Gwyddelwern, Sir Ddinbych) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2018 (O.S. 2018/533 (Cy. 91)) a Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Glyndyfrdwy, Sir Ddinbych) (Terfyn Cyflymder 30 mya) 2021 (O.S. 2021/679 (Cy. 171)) yn cael eu dirymu gan y Gorchymyn arfaethedig.

**THE A5, A55, A494 & A470 TRUNK ROADS, THE B5125 (CHESTER ROAD) AND AN UNCLASSIFIED ROAD (NORTH EAST WALES) (20 MPH & 30 MPH SPEED LIMITS) ORDER 202-**

**STATEMENT OF REASONS**

Legislation was made by the Welsh Ministers on 13 July 2022 to lower the default national speed limit on restricted roads in Wales from 30 mph to 20 mph. The new default 20 mph speed limit on restricted roads (which are characterised by a system of street lighting or otherwise restricted by Order), will come into force on 17 September 2023. From that date, restricted roads will have a speed limit of 20 mph unless a different speed limit is set by the relevant highway authority.

The existing sections of the trunk road network currently subject to a 30 mph speed limit or less have been assessed against the “Place criteria” set out in addendum 01/2022 to Circular No. 24/2009 (Setting Local Speed Limits in Wales) to ascertain if they meet the exception criteria and should remain at 30 mph.

The principles of the exceptions criteria are built on the Welsh Government’s aspiration that a 20 mph speed limit should generally be set where pedestrians and/or cyclists and motor vehicles mix in a frequent manner, except where strong evidence exists that higher speeds are safe. Following an assessment, a 30 mph speed limit is proposed at the locations outlined in Schedule 2 to this Order, as exceptions to the 20 mph default speed limit. A speed limit of 20 mph is proposed in relation to the lengths of unrestricted highways outlined in Schedule 1 to the Order, as the “Principles” (in paragraph 2.1 of the above guidance) for a 20 mph speed limit are met.

The A494 Trunk Road (Ysgol Brynhyfryd and Ruthin School, Denbighshire) (Part-Time 20 mph Speed Limit) Order 2016 (S.I. 2016/1015 (W. 244)), the A494 Trunk Road (Llanbedr Dyffryn Clwyd, Denbighshire) (30 mph Speed Limit) Order 2018 (S.I. 2018/405 (W. 72)), the A494 Trunk Road (Gwyddelwern, Denbighshire) (Part-time 20 mph Speed Limit) Order 2018 (S.I. 2018/533 (W. 91)) and the A5 Trunk Road (Glyndyfrdwy, Denbighshire) (30 mph Speed Limit) Order 2021 (S.I. 2021/679 (W. 171)) will be revoked by the proposed Order.